Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes
# Glyn Collen
# Pentwyn
# Caerdydd
# CF23 7ES

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2013**

## Cyd-destun

Agorwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes ym mis Medi 2009, o dan ofalaeth Ysgol y Wern, fel rhan o strategaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Lleolwyd yr ysgol ar safle ysgol Bryn Celyn, yn bennaf i wasanaethu ardaloedd Pentwyn a Phontprennau. Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yng nghanol cyfnod o waith datblygu sylweddol ar y safle.

Mae 39 o blant oed 4-8 yn yr ysgol a bydd yr ysgol yn cyrraedd ei llawn dwf yn 2015. Mae 15.4% o blant ar y gofrestr anghenion arbennig a thua 7.7% â'r hawl i brydau bwyd am ddim; mae'r ffigurau hyn yn is na'r ffigurau cenedlaethol a lleol. Daw 96.7% o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith a thua 7% o gefndir lleiafrif ethnig.

Oherwydd bod yr ysgol yn un gymharol newydd, nid oes adroddiad arolygu blaenorol. Wrth i ddisgyblion symud i Flwyddyn 3 am y tro cyntaf ym mis Medi eleni, penodwyd pennaeth dros dro ar yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pen-y-Groes yn 2012-2013 yw £9,372. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerdydd yw £12,307 a'r lleiafswm yw £2,873. Mae Ysgol Pen-y-Groes yn yr ail safle o'r 99 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Pen-y-Groes yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi ac yn eu llyfrau cyfredol;
- y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm;
- digonol yw ansawdd yr addysgu; a
- nid yw'r gyfundrefn asesu wedi ymwreiddio'n llwyr ac nid yw'r marcio yn dangos yn ddigon clir i ddisgyblion sut i wella ansawdd a chynnwys eu gwaith.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus mewn byr amser i'r staff, y disgyblion a'r llywodraethwyr;
- y pennaeth dros dro mewn byr amser wedi llwyddo i adnabod yr ysgol yn drwyadl;
- tystiolaeth glir o welliant mewn meysydd pwysig mewn amser byr; ac
- ymroddiad yr holl staff i ddatblygu'r ysgol yn gymuned addysgol drefnus sy'n canolbwyntio ar godi safonau.

Fodd bynnag:

- hyd yma, nid oes digon o amser wedi bod i'r gwelliannau effeithio'n llawn ar safonau a darpariaeth;
- nid yw'r gyfundrefn hunanarfarnu yn gwneud digon i ddadansoddi ac arfarnu safonau, ansawdd ac effaith systemau a strategaethau'r ysgol;
- hyd yn hyn, nid yw rôl y corff llywodraethol newydd fel ffrind beirniadol i'r ysgol wedi datblygu'n briodol; ac
- nid yw arweinyddiaeth yr ysgol yn sefydlog.

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella ansawdd yr addysgu

A3 Cryfhau'r gyfundrefn asesu ac asesu ar gyfer dysgu

A4 Cryfhau'r gyfundrefn hunanarfarnu a sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses

A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

A6 Fel mater o frys, sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn gwneud cynnydd da. Mae safonau gwaith disgyblion yn eu llyfrau ac yn ystod y sesiynau dysgu yn briodol i'w hoed a'u gallu, ac mae gwaith y goreuon o safon dda.

Ar draws yr ysgol, gall rhan fwyaf y disgyblion alw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol mewn gwersi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, fe wna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd cyson ac amlwg ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn datblygu'n dda.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn weithgar yn ystod y sesiynau, ac yn dangos diddordeb yng ngweithgarwch y dosbarth. Gallant drafod eu gwaith yn ddeallus ac, erbyn cyrraedd cychwyn cyfnod allweddol 2, maent yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth weithio.

Er bod y disgyblion bron i gyd yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, maent, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol gyfoethog. Fel arfer, mae'r rhan fwyaf yn dewis sgwrsio'n Gymraeg gyda'i ffrindiau mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac mae hyn yn nodwedd arbennig o'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn darllen testunau syml gyda mwynhad, yn gynyddol hyderus a chywir. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Erbyn cyrraedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ddarllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddefnyddio goslef llais i gyfleu ystyr. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt, a defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth ar draws ystod o feysydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gywir yn y ddwy iaith mewn ystod o ffurfiau. Mae eu medrau atalnodi a sillafu'n datblygu'n briodol. Er hynny, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n dda. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn eu llyfrau cyfredol yn dda.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd pob plentyn i gyflawni'r lefelau disgwyliedig, sef deilliant 5 neu well, mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mathemateg; llwyddodd tua hanner y garfan gyflawni deilliant 6 mewn medrau iaith.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn y 50% uchaf, oni bai am fedrau personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

O fewn y data cyfyng iawn sydd ar gael, nid yw'n bosib canfod unrhyw batrwm yng nghanlyniadau bechgyn a merched, disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, na disgyblion o gefndiroedd ethnig. Serch hynny, perfformiodd y bechgyn yn well ar ddeilliant 6 yn 2012.

Dengys cofnodion tracio mewnol yr ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu'n well na'r disgwyl.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dangos cynnydd da tuag at eu targedau personol.

**Lles: Da**

Teimla bron pob disgybl yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwella eu ffitrwydd mewn gwersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob un disgybl yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn mwynhau bywyd yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac maent yn lleisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, tuag at athrawon a thuag at ymwelwyr. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio.

Dengys llawer o'r disgyblion aeddfedrwydd a pharodrwydd i gynorthwyo eraill yn yr ysgol ac mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer camau nesaf mewn bywyd. Maent yn llysgenhadon da i'r ysgol ac maent yn cyfathrebu'n hyderus mewn Cymraeg graenus.

Dengys y disgyblion gonsyrn am eraill drwy gyfrannu tuag at godi arian i elusennau fel 'Plant mewn Angen'.

Sefydlwyd Cyngor Ysgol eleni ac mae'r aelodau wedi cwrdd i ethol swyddogion ac i gynnig syniadau. Mae aelodau'r cyngor yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r gyfradd presenoldeb yn 94.3% yn 2011-2012 ac mae hyn yn cymharu'n ffafriol â rhai ysgolion tebyg. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau diddorol y tu fewn a thu allan sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion llawer o ddisgyblion yr ysgol. Mae'r gweithgareddau yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygiad medrau cyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen ac mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n addas. Serch hynny, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl yn addas

Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig drwy'r ysgol ac mae'r ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall a dathlu diwylliant Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu yn briodol yn yr ysgol. Gweithredir yn gynaliadwy drwy leihau gwastraff ac ailgylchu.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth dda am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Defnyddiant strategaethau addysgu amrywiol er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion. Maent yn creu amgylchedd cyfoethog, deniadol ac ysgogol yn eu dosbarthiadau. Mae'r cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn creu ethos gweithgar a chynhaliol. Mae perthynas waith da rhwng y staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth.

Mewn llawer o wersi ceir cyflwyniadau bywiog a chyflymder pwrpasol. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn rhannu nodau'r gwersi'n briodol gyda'r disgyblion ac yn trefnu dilyniant o weithgareddau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn barhaus. Maent yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion ar ddechrau'r gwersi ac mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'u targedau personol. Trwy holi effeithiol, mae'r athrawon yn herio'r disgyblion i feddwl. Gwneir defnydd cyson o ganmoliaeth ac anogaeth sy'n gymorth i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol.

Mewn ychydig o wersi mae'r addysgu'n llai effeithiol. Yn y gwersi hyn, nid oes digon o weithgareddau gwahaniaethol wedi eu darparu ac nid yw'r athrawon yn annog y disgyblion i feddwl nac yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau yn drylwyr. Yn y gwersi hyn hefyd, mae cyflymder y wers yn rhy araf, mae rhai disgyblion yn anesmwytho ac nid yw anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu.

Ar draws yr ysgol, nid yw'r gwaith yn herio'r disgyblion o allu uwch yn ddigonol mewn gwersi. Yn gyffredinol, nid yw'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ysgrifennu yn gosod digon o bwyslais ar ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol.

Nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnwys disgyblion yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella, ond nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio'n rheolaidd, ond nid yw'r marcio'n ddigon manwl bob amser i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella'u gwaith. Nid yw'r marcio bob amser yn gosod digon o bwyslais ar safon cyflwyniad y gwaith. Mae trefniadau priodol ar waith i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant drwy'r adroddiadau a chyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae pob un o'r staff yn rhannu dealltwriaeth a chyfrifoldeb am ofal, cymorth ac arweiniad, ac maent yn gwbl ymroddedig i sicrhau lles y disgyblion. Ceir gweithdrefnau clir a threfnus ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn cynnal safonau ymddygiad da iawn. Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r polisi ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, ac mae'r gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n dda ac mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i lunio strategaethau cefnogi addas.

Mae'r ysgol yn mynd ati'n effeithiol iawn i hyrwyddo buddion ffordd iach o fyw a diet iach. Ceir polisïau a gweithdrefnau priodol i sicrhau iechyd a lles emosiynol a chorfforol disgyblion. Dengys y disgyblion barch at eraill o'u cwmpas a balchder wrth gyfrannu i waith y Cyngor Ysgol. Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys seicolegwyr addysg a gwasanaethau'r heddlu a nyrs.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu plant yn cwrdd â'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn yr ysgol ifanc hon sy'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch gynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar a deniadol gydag amrywiaeth o arddangosfeydd yn cynnwys gwaith y disgyblion. Ceir neuadd braf sy'n cael ei defnyddio yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau, fel ffreutur ac ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol. Mae'r cyfleusterau i gyd yn lân ac addas a chaiff y safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Penodwyd pennaeth dros dro i'r ysgol am y tro cyntaf ym Medi 2012. O'r herwydd, nid yw strwythurau rheolaeth yr ysgol eto wedi datblygu na sefydlu yn llawn. Mae athrawes yn arwain gwaith y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae arweinwyr pwnc wedi eu hapwyntio yn ddiweddar. Mae'r athrawon wedi darparu cynllun datblygu addas sy'n seiliedig ar y prif flaenoriaethau ac maent yn gweithio yn effeithiol, gyda chefnogaeth y llywodraethwyr, i weithredu'r cynllun.

Mae'r pennaeth dros dro yn rhoi arweiniad cryf i'r holl staff er mwyn creu cymuned ysgol ble mae disgyblion yn teimlo'n werthfawr, yn tyfu mewn hyder ac aeddfedrwydd ac yn frwdfrydig i ddysgu.

Mae trefn rheoli perfformiad addas wedi ei sefydlu a'i gweithredu ar gyfer yr holl athrawon. Mae wedi arwain at dargedau perfformiad sydd yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygiad personol a blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae gan y llywodraethwyr ymrwymiad cryf i'r ysgol a gweledigaeth glir o addysg cyfrwng Cymraeg. Maent yn cynnig cynhaliaeth gref i'r staff ac yn herio'r pennaeth yn drwyadl er mwyn arfarnu i ba raddau y mae yr ysgol yn datblygu yn unol â'u gweledigaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithio'n effeithiol i sicrhau y bydd polisïau statudol i gyd ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon. Nid oes gweithdrefnau hunanarfarnu trwyadl na chynlluniau datblygu manwl wedi cael eu sefydlu ar hyn o bryd. O'r herwydd, nid yw'r corff yn gallu monitro ansawdd a safonau yn drwyadl.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn y cyfnod cymharol fyr ers penodi'r pennaeth dros dro mae'r ysgol wedi ymgymryd â hunanarfarniad sydd wedi arwain at adnabod y prif flaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, mae'r broses hon wedi adnabod nifer o brif anghenion yr ysgol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau a ddilynwyd yn rhoi sylw priodol i farn ystod o randdeiliaid megis rhieni a'r disgyblion. Nid yw ychwaith yn rhoi sylw addas i dystiolaeth uniongyrchol o weithgareddau monitro ansawdd megis arsylwadau dosbarth.

Mae'r hunan arfarniad wedi arwain at gynllun datblygu sy'n cynnwys blaenoriaethau addas i athrawon a llywodraethwyr weithredu arnynt yn y tymor byr. Yn gyffredinol, mae'r meini prawf llwyddiant yn addas, ond nid yw'r rhai sy'n berthnasol i gyflawniad disgyblion yn ddigon heriol. Mae'r cynllun yn nodi'n glir yr adnoddau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer y gweithgareddau ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u gweithredu.

Mae'r ysgol yn trefnu rhaglen fuddiol sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r athrawon ymweld ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill er mwyn gweld enghreifftiau da o addysgu ac asesu. Fodd bynnag, ni fu cyfleoedd hyd yn hyn i fod yn rhan o rwydweithiau arfer broffesiynol y tu allan i'r ysgol. Mae rhwydweithiau mewnol yn darparu cyfleoedd addas i athrawon ystyried eu harfer eu hunain, gan gynnwys cwblhau arfarniadau o'u gwersi.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol rai partneriaethau defnyddiol. Mae'r athrawon yn rhannu tasgau cynllunio gydag athrawon mewn ysgolion newydd eraill sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae disgyblion yn elwa o'r berthynas dda sy'n bodoli gyda'r ysgol uwchradd y byddant yn debygol o drosglwyddo iddi. Mae cyswllt gyda'r llyfrgell leol, yr heddlu ac asiantaethau eraill yn cynnig profiadau diddorol i'r disgyblion.

Mae'r rhieni yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol, gan ymestyn gwaith yr ysgol i'r cartref. Mae canran uchel o'r rhieni yn mynychu nosweithiau rhieni ac mae'r ysgol wedi elwa'n sylweddol o gyfraniadau ariannol gan y gymdeithas rhieni ac athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn dda ac yn sicrhau eu bod yn llwyr gysylltiedig â'r cynllun datblygu newydd. Caiff y gyllideb ei monitro'n ofalus.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a phrofiadol ac fe'i defnyddir mewn modd addas. Cynigir cyfleoedd da i'r staff fynychu cyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft, i ddatblygu eu rôl fel cydlynwyr pynciau ac ar gyfer datblygu safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi eu trefnu'n dda. Mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol.

At ei gilydd, mae ystod dda o adnoddau priodol gan yr ysgol. O ystyried deilliannau'r ysgol, mae'n cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dim ond data perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sydd ar gael, a dim ond ar gyfer 2012. Oherwydd bod maint y carfannau'n fach iawn, gydag un disgybl yn cyfateb i 10% o'r garfan, ar gyfer y flwyddyn, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail y data hwn.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd pob plentyn i gyflawni'r lefelau disgwyliedig, sef deilliant 5 (lefel 2) neu well mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mathemateg; llwyddodd tua hanner o'r garfan gyflawni deilliant 6 (lefel 3) mewn medrau iaith.

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn y 50% uchaf, oni bai am fedrau personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

O fewn y data cyfyng iawn sydd ar gael, nid yw'n bosibl canfod unrhyw batrwm yng nghanlyniadau bechgyn a merched, disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, na disgyblion o gefndiroedd ethnig. Serch hynny, perfformiodd y bechgyn yn well ar ddeilliant 6 yn 2012.

Dengys cofnodion tracio mewnol yr ysgol bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cystal â, neu'n well na'r disgwyl.

Mae canlyniadau dros dro diwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2013 yn dangos bod pob disgybl yn cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn lles a datblygiad mathemategol, a bod llawer ohonynt yn cyrraedd yr un safon mewn medrau cyfathrebu.

Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dangos cynnydd da tuag at eu targedau personol

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 14 o ymatebion gan rieni.

Mae pob un yn cytuno:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol;
- bod yr ymddygiad yn dda;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn wneud ei orau;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff;
- bod y staff yn trin pob plentyn gyda pharch a bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol priodol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi:

- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; ac
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Mae 33% o rieni yn nodi nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, sydd yn bell o dan y ffigwr cenedlaethol o 90% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

**Ymateb i'r holiaduron dysgwyr**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiadur i ddysgwyr oherwydd ni chafwyd unrhyw ymatebion cyn y dyddiad olaf ar gyfer eu casglu.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Garth Higginbotham | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sian Hart | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anne Fenner | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |